
Rhifyn Tachwedd_Tud 1 Mehefin.qxd 07/10/2014 14:46 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 36. RHIF 6 TACHWEDD 2014 50c

# Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl 2014

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl am y tro cyntaf ar gwrs Clwb Golff Woolton, Lerpwl yn nechrau mis Medi. Braf oedd gweld baner y Ddraig Goch yn chwifio uwchben y Clwb drwy'r dydd. Roedd y tywydd yn fendigedig i'r 12 o olffwyr profiadol a gymerodd ran. Llywyddwyd y seremoni gwobrwyo gan Dr John Williams ar ran ei gyd drefnwyr – John Lyons a Brian Thomas. Tîm Dr John enillodd y wobr i'r pedwarawd gorau ac er mawr syndod i lawer, yn cynnwys ei deulu ei hun, Dr. John a enillodd y wobr i'r dynion. Eirlys Bailey enillodd y wobr i'r merched. Gwnaethpwyd £400 o elw tuag at ddathliadau y 'Mimosa' y flwyddyn nesaf sydd yn cael eu trefnu gan Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi. Diolchiadau arbennig i Mrs. Hilda Thomas am fod mor egniol gyda'i hymdrech i werthu ticedi raffl! Edrychwn ymlaen am yr ail gystadleuaeth yr un adeg y flwyddyn nesaf.




*Y Ddraig yn harddu Woolton*



*Y Golffwyr a'r Cefnogwyr*




*Williams' Wanderers – Dr. John a'i dîm a'r mascot*



*Eirlys Bailey a Dr. J. G. Williams – y golffwyr ar ei gorau*



*Gwledda ar ôl y cystadlu*

## YN Y RHIFYN HWN:

Oedfa gofiadwy - Newyddion o Fanceinion, Eglwysi Bethania, Bethel, Seion – Cymry Lerpwl a Chymry Birkenhead - Cofio John R. T. Davies a Doreen Jones

Golygyddol

# ETHOLIAD AR Y GORWEL

## – gan D. Ben Rees

Y mae tri mater yn penderfynu pwy sy'n fuddugol mewn Etholiad Cyffredinol, sef yr economi, arweinyddiaeth a pha mor unol y mae'r pleidiau gwleidyddol. Gyda'r ddau gyntaf y mae'r Blaid Geidwadol yn bell ar y blaen i'r Blaid Lafur, ond ar y trydydd mater, y mae gan y Ceidwadwyr gryn broblem. Credir, yn ôl y pôl piniwn gan 61% o boblogaeth y wlad fod y Ceidwadwyr yn gwbl rhanedig a hynny yn bennaf ar y pwnc o berthyn i'r Gymuned Ewropeaidd. Y mae'r ffaith i ddau Aelod Seneddol, Douglas Carswell a Mark Reckless (a gafodd neb erioed well gyfenw) adael y Ceidwadwyr am y blaid geiniog a dimai, UKIP yn dweud llawer iawn am David Cameron a'i gymrodyr. Gall y rhwyg amlwg hwn roddi buddugoliaeth i Ed Milliband er gwaethaf ei amhoblogrwydd i werin gwlad. Ond y mae ganddo ei rinweddau, ac un o'i fuddugoliaethau pennaf oedd gofalu dros flwyddyn yn ôl nad oedd Prydain yn barod i adael bomiau i ddisgyn ar breswylwyr Syria.

Y mae'n edrych yn bosibl y gall Douglas Carswell, ennill sedd Clacton i'r UKIP. Deuthum i'r casgliad mae pobl heb lawer o wybodaeth wleidyddol yw llawer o gefnogwyr y blaid honno, etholwyr sydd yn flin gyda phawb a phopeth, ac yn arbennig gyda'r ymfudwyr a ddaw i weithio ar y tir, ac yn y gwestai, a llawer swydd arall, o Ewrop, Asia ac Affrig. Yn ychwanegol mae gennym bobl sydd yn barod i farw er mwyn cael profi bendithion Prydain. Pa wlad wedi'r holl siarad sydd yn debyg i'r Deyrnas Unedig? Er yn emosiynol ein bod yn cydymdeimlo â'r crwsâd i gael annibyniaeth i'r Alban, yn foesol a chymdeithasol y mae angen ein gilydd arnom. Y mae'r Alban yn gwneud yn dda o ddatganoli ac o bwrs y Deyrnas Unedig, yn well nag un rhan arall o'r DU, yn well na Chymru, na Gogledd Iwerddon. Y mae Lloegr yn bell ar ei hôl hi am ein bod nhw ddim mor frwdfrydig wleidyddol ag yw'r Celtiaid. Y mae tuedd i Blaid Genedlaethol yr Alban fod yn hynod o blwyfol ac yn angharedig o dwyllodrus yn ei propaganda, Gwelwyd hynny yn yr Ymgyrch Ie/Nage. Soniwyd fod y Gwasanaeth Iechyd a ddaeth i fodolaeth trwy un o'r Cymry carismatig mewn gryn berygl, a llyncwyd hyn fel pe bae hynny yn wir. Ond y gwir yw fod y Gwasanaeth Iechyd yn dod eisoes o dan ofal y Senedd yng Nghaeredin.

O ran polisiau y mae'r dair blaid pwysicaf o ran nifer yr Aelodau Seneddol yn agos iawn o ran polisiau. Y mae'r Ceidwadwyr, y Rhyddfrydwyr a Llafur yn credu mewn tocio buddiannau yr anghenus, gwneud bywyd yn waeth i'r Anabl, a gorfodi cynghorau i gau pyllau nofio, llyfrgelloedd a llawer o adnoddau derbyniol mewn cymunedau.

Mae'n rhaid cydnabod er yr holl feirniadu sydd ar y Cynulliad fod trigolion Cymru wedi elwa yn fawr ers 1997. Nid oes rhaid i neb dalu am brescripsiwn, caiff yr ifanc fynd i Brifysgolion Cymru yn rhad ac am ddim, a gellir teithio o Gaerfyrddin i Gaernarfon ar y bysiau heb dalu ceiniog. Yn wir mae trigolion yr Alban wedi elwa fwy fyth trwy bolisiau y Blaid Genedlaethol (SNP). Mae datganoli yn gweithredu gan ei fod yn rhoddi cyfrifoldeb ar yr arweinwyr. Llafur a fu mewn grym ran fwyaf o'r amser ym Mae Caerdydd. Bu Llafur a Phlaid Cymru am gyfnod mewn coalisiwn a bu hynny yn dderbyniol dros ben. Mantai y Cynulliad yw y sustem pleidleisio gan fod y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yn manteisio arno.Y syndod pennaf yn etholiadau Ewrop oedd i UKIP (cenedlaetholwyr Lloegr mewn geiriau eraill) wedi llwyddo i ennill sedd yn Senedd Ewrop, ac mewn aml i etholaeth hwy oedd ar frig y pôl, hynny yw yng Nghonwy a Sir y Fflint, a Wrecsam, ardaloedd sydd wedi Seisnigeiddio yn ddybryd. A yw darogan Nigel Farage yn mynd i gael ei wireddu mis Mai nesaf? Ei bod nhw yn mynd i ennill Cymru – amser a ddengys.

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
"ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL"

PAPUR BRO SAFONOL YN DIBYNNU AR GYFRANIADAU GWIRFODDOL O FIS I FIS

e-bost – benatgarthdrive@talktalk.net

Safle we – Cymrylerpwl.co.uk

***Golygydd:***
Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool L18 6HW

***Cadeirydd***:
Dr. John G. Williams, Calderstones, Lerpwl

***Trysorydd***:
Roderick Owen, Maes-hir, 21 Drennan Road, Allerton Lerpwl/Liverpool L19 4UA

***Ysgrifennydd:***
Ben Hughes, 12 Kenilworth Road, Childwall, Lerpwl

Pris Yr Angor am flwyddyn trwy'r post £11.00

# CORNEL Y TRYSORYDD

## TACHWEDD 2014

| | | |
|---|---|---|
| Mr a Mrs Myfyr Jones | Rowen | £5.00 |
| Mrs Sian Hartley | Allerton | £5.00 |
| Rhodd Capel Bethel | Lerpwl | £250.00 |
| Rhodd Cymdeithas Lenyddol | Bethel | £25.00 |
| Mrs Beryl M Jones | Welwyn Garden City | £20.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | | £50.00 |
| Mr a Mrs Hugh Roberts | Bebington | £20.00 |
| Mrs Lilian Coulthard | Cressington | £25.00 |
| Mr Aled Lewis Evans | Wrecsam | £11.00 |
| Mr a Mrs William Smith | Maghull | £20.00 |
| Mrs Evelyn James | Pwllheli | £20.00 |
| | **Cyfanswm** | **£451.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Rhifyn Tachwedd_Tud 1 Mehefin.qxd 07/10/2014 14:46 Page 3

Coffâd

# Mrs Doreen Jones, Allerton (1928-2014)

**Cymraes glanloyw oedd Mrs Doreen Jones a fu farw ar 2 Medi yng nghartref St. Michael's Springwood yn 86 mlwydd oed. Ganwyd hi yn y Foelas, ym mhentref Cerrigydrudion, yn un o deulu mawr o blant. Cafodd fagwraeth dda a symud yn blentyn i Wavertree, Lerpwl, a mynychu Capel Cymraeg, Heathfield Road. Sylwais yn Adroddiad y Capel am 1949 ei henw hi Miss Doreen Roberts, 27 Taunton Street, Wavertree. Yn wir yng Nghapel Heathfield Road y priododd hi a Victor Jones a hynny yn 1954, ac mewn ychydig fisoedd symud i fyw i 117 Pitville Avenue. Yno y cofiaf hi, hi a'i phriod Victor (a fu farw yn y flwyddyn 2000) a'i brawd Selwyn (a fu farw yn 2006) a gofynnwyd imi lywyddu yn y cynhebrwng. Meddyliai y byd o'i brodyr, Eric a fu farw yn bymtheg mlwydd oed fel canlyniad i ddamwain beic ar y ffordd rhwng Cerrigydrudion a Phentrefoelas, a Leslie a Selwyn.**

**Yr oedd hi yn groesawgar iawn yn ei chartref ac yn llawn brwdfrydedd dros dîm rygbi Cymru. Cefnogai, am ryw reswm na ofynnais iddi, dîm pêl-droed Tranmere Rovers. Yr oedd yn gymeriad adnabyddus ar hyd a lled Rose Lane ac Allerton Road a byddwn yn dod ar ei thraws yn achlysurol. Hoffai fynychu rai o'r Cyngherddau Cymraeg a drefnais dros y blynyddoedd. Hoffter mawr arall oedd ganddi oedd cŵn, a gan fod ei merch Vicky, yn meddu ar ddau sbaniel du yr oedd ei chwpan yn llawn. Galwyd y sbaniel oedd yn ffefryn yn Megan. Edrychai ymlaen i gael treulio gwyliau yng Nghymru a hefyd yng nghartref y ferch, y tu allan i dref Wakefield yn Swydd Efrog. Bu'r misoedd olaf yn anodd, gorfod wynebu ar gyfnodau yn yr Ysbyty ac yna treulio pedwar mis olaf o'r bererindod yng Nghartref Gofal St. Michael's. Bu'r arwyl yn Amlosgfa Springwood ar fore Llun, 8 Medi o dan fy ngofal a chlywsom ganu Calon Lân o enau Bryn Terfel (arwr arall) a Myfanwy. Cydymdeimlir â'r unig ferch Vicky a'r mab-yng-nghyfraith Nigel.**

**D. Ben Rees**



*Doreen a'i merch Vicky*




Dydd Iau 12.30pm ac Ail-ddarllediad Dydd Sadwrn 5.30pm

bbc.co.uk/radiocymru @bbcradiocymru @becca_bingo

Rhifyn Tachwedd_Tud 1 Mehefin.qxd 07/10/2014 14:46 Page 4

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Bu rhai o aelodau Seion ym Methel i'r oedfa arbennig i gofio Thomas Charles. Roedd ein blaenor, Miss Iris Hughes Jones, yn cymeryd rhan trwy ddarllen rhan o Bennod 42 o Eseia, Cawsom oedfa llawn diddordeb a bu canu emynau Thomas Charles, David Charles a David Charles yr ail yn hyfrydwch pur. Hefyd cafwyd cyfraniad da gan Gantorion Bethel, côr yn llawn afiaith. Yn bennaf, cafwyd cyflwyniad cofiadwy gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ar Fywyd a Gwaith Thomas Charles. Dr. J. G. Williams oedd y llywydd.

Rydym yn cydymdeimlo â Miss Iris Hughes Jones yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei ffrind a'i chymydog Mr. Barcha a fu mor gefnogol i'r capel. Bu teulu Mr. Barcha yn gysylltiedig â hi am flynyddoedd gan fod Iris wedi bod yn athrawes i'w ferch, ac wedi bod yn gymorth i'w wraig. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs. Barcha a'r teulu.

Bu farw Delyth, gwraig y Parch Glyn Tudwal Jones, yn frawychus o sydyn. Bu ei gŵr yn gyn-weinidog yn Laird Street a Wallasey ac anfonwn ein cydymdeimlad yn ei brofedigaeth.

Aeth Mrs Morfudd Williams i'r Encil yn Y Bala. Mae hi yn ffyddlon i'r cyfarfodydd hyn. Cafodd godwm arall yn Moreton, a chael sawl pwyth yn ei thalcen. Deallwn fod Mr. Bob Jones yn wael ar hyn o bryd. Gweddiwn dros y cleifion, Anne Jones a Gwyneth Ellis.

Yn bersonol, cefais bleser mawr a hwyl wrth ddarllen hanes y cyn genhadwr, Parch Vic Edwards (sydd yn mynychu Seion). Bu yn genhadwr yn Ne America a Sbaen. "Cowpats & Bee Stings" yw enw'r llyfr a da darllen ei hanes.

---

Gofidiwn na fedr ein cyn-weinidog y Parchg. Tom Wright, Wrecsam ddod atom ar bnawn Sul, 26 Hydref oherwydd gwaeledd ei briod, ond yr ydym wedi llwyddo i gael gwasanaeth y Parchg. Eleri Edwards, Manceinion a fydd y bore hwnnw yn gwasanaethu Eglwysi Bethel a Bethania yn eglwys Christ Church, Waterloo. Trueni na fedrodd y Parchedig Eric Jones, Bangor ddod atom ar Sul olaf mis Medi ond cawsom oedfa arbennig iawn o dan ofal ein hunig flaenor, Miss Iris Hughes-Jones. Gwnaeth ei gwaith yn hynod o dderbyniol yn oedfa Cofio Thomas Charles, a da oedd cael pedwar o aelodau Seion yn gwmni iddi. Yr ydym fel Eglwys yn gofyn i'r Henaduriaeth am ganiatâd i symud ymlaen i ddewis rhagor o flaenoriaid. Cawsom glywed gan Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain y cynhelir yr ethol ar bnawn Sul, 9 Tachwedd pan y bydd Dr. J. G. Williams yn gwasanaethu yn ein plith. Taer erfynir ar i'r holl aelodau a all fynychu'r moddion, ddod allan ar Sul, 9 Tachwedd i ddewis arweiniwyr i'r achos yn Seion.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Bu cynrychiolaeth o'r eglwys yn talu'r gymwynas olaf i un o'r goreuon, John Davies, a hynny yng Nghapel Tabernacl, Rhuthun gan gofio ei wasanaeth gwerthfawr yng nghapel Stanley Road am flynyddoedd. Yr oedd bob amser mor barod i helpu, yn arbennig yr ifanc, gan osod iddynt esiampl o wasanaeth. Llawenydd mawr oedd galw i weld Miss Glenys Jones, Stoneycroft i'w llongyfarch ar ddathlu ei phen-blwydd yn naw deg mlwydd oed. Cafodd ofal mawr ac yr oedd y cardiau niferus o'i chwmpas a hithau yn llawenydd i gyd, yn rhyfeddu iddi gyrraedd y filltir hon yn ei phererindod. Mae Miss Dorothy Williams yn cryfhau o ddydd i ddydd ar ôl y driniaeth, ond deil Mrs Mena Edwards, Blundellsands yn gaeth i'w chartref, a ychydig o gyfle a gafodd i fynd allan oherwydd ei hafiechyd. Deil, er hynny i gyd, yn esiampl o ffydd yn goresgyn yr aflwydd, a gweddiwn dros yr holl gleifion sydd yn ein plith y dyddiau hyn. Deil y gynulleidfa i ymateb, a braf oedd cael bod yn Oedfa Dathlu Bywyd Gwerthfawr Thomas Charles o'r Bala.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Drwg iawn oedd ganddym ddeall fod Mrs Glenys McNulty, Illchester Road yn bur wael yn Hosbis Marie Curie yn Woolton yn dilyn rhai wythnosau yn Ysbyty Whiston. Meddyliwn amdani ac am ei phriod, Mr. John McNulty. Cafodd Miss Aimee Johnson driniaeth llaw-feddygol yn yr Ysbyty Frenhinol ac mae Mrs Glenys Johnson yn disgwyl mynd i mewn. Cofiwn am y tair yn ein gweddïau.

Dymunwn yn dda iawn i Miss Hannah Thompson, Woolton oedd yn dechrau gweithio yn Llundain ar ddydd Llun 8 Medi. Mae Hannah yn ferch mor annwyl ac mae wedi bod yn ffyddlon a gweithgar ym Methel ar hyd ei bywyd. Cawsom



*Anne M. Jones yn gosod y canllawiau*



*Y tîm buddugol yn pendroni*



*Y Tîm a enillodd o hanner marc (o'r chwith i'r dde) Mair Roberts, M. A. Williams Wena Evans, R. I. Griffith, Anne M. Jones (cwis feistr) a'r capten Eryl Dooling*



*Enid Hughes Jones yn cael ei holi am ei magwraeth yn Anfield*



*Anne Roberts yn ateb cwestiynau am ei chefndir*

groesawu Miss Carys Williams i'n hoedfaon ac i Gôr Bethel. Merch yw Carys i Mr a Mrs Robyn Williams, Sir Fôn, ac mae wedi dechrau gweithio yma yn Lerpwl. Dymunwn yn dda iddi a byddwn yn falch iawn o'i gweld unrhyw amser.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o dymor newydd y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun, 16 Medi pryd y cawsom y Cwis poblogaidd gan Mrs Anne M. Jones. Mwynhawyd y noson yn fawr, noson o ddysgu ac o hwyl. Ein llongyfarchiadau i'r tîm buddugol a diolch i'r tri tîm arall oedd yno. Mae'n diolch yn fawr i Anne am roddi o'i hamser i baratoi'r cwestiynau. Llywyddwyd y noson gan Dr. D. Ben Rees yn absenoldeb anorfod Mrs Elan Jones.

Cawsom Oedfa wych wedi ei threfnu gan Dr. Rees i gofio Thomas Charles o'r Bala fore Sul, 21 Medi gan ei fod yn ddau ganmlwyddiant ei farwolaeth ar 5 Hydref. Llywyddwyd y cyfarfod gan Dr. John G. Williams. Roeddym yn disgwyl cael croesawu wyth o weinidogion ifanc o'r India ond methasant a chael "visas" i ddod i'r wlad hon. Roedd ein tair eglwys wedi uno i'r Oedfa arbennig hon a chawsom fore cofiadwy iawn, gyda lluniaeth i bawb ar y diwedd.

Cafodd y Pwyllgor Caplaniaeth ymweliad gan y Parchg. Meirion Morris, Caerdydd, Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad, ar fore Llun 22 Medi. Cawsom drafodaeth werthfawr a llygedyn o obaith.

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar 'Adladd yr Eisteddfod' a chafwyd sylwadau gwerthfawr gan Mrs Beryl Williams a Roderick Owen a fu yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli. Llywyddwyd y cyfarfod ar 22 Medi gan Dr. D. Ben Rees, a rhoddodd yntau flas ar lenyddiaeth y Brifwyl. Dyma noson gwerth ei chael.

Ar nos Lun 29 Medi yn y Gymdeithas Lenyddol cawsom gyfarfod pryd yr holwyd Mrs Enid Hughes Jones, Campbell Drive, Broadgreen a Miss Ann Roberts, Score Lane, Childwall gyda Dr. D. Ben Rees ar "Droeon yr Yrfa". Mae'r ddwy yn arbennig iawn i ni ym Methel mewn nifer fawr o ffyrdd ac wedi bod yn hynod o ffyddlon a gweithgar y deugain mlynedd diwethaf. Mae'r ddwy yn gynnyrch Cymry Lerpwl ac maent yn naturiol dalentog, un ym myd canu a'r llall yn myd yr adrodd.

Clywsom i Enid Hughes Jones fyw fel plentyn yn Wylva Road, Ainfield. Roedd ei thad yn gweithio ar y dociau a'i rheini yn enedigol o Flaenau Ffestiniog. Roedd ganddi un brawd, dair blynedd yn ieuengach. Aeth i Ysgol Breckfield lle, flynyddoedd yn ddiweddarach y bu Mr

Evan Bowen yn Brifathro. Yna aeth i Ysgol Eilradd Breckfield. Mynychai'r teulu Gapel y Wesleaid yn Oakfield Road, Anfield. Nid yw Enid wedi byw yng Nghymnru o gwbl ond mae ei Chymraeg yn rhugl. Roeddynt yn sôn am Ddirwest yn y Capel a'r Band of Hope ac fe arwyddodd Enid y Llw Dirwest (y "Pledge") pan yn bedair ar ddeg oed. Cadwodd y llw dros y blynyddoedd. Byddent yn cael Brenhines y Dirwest fel Cymry Lerpwl. Roedd Enid yn cofio Olwen Thomas o Heathfield Road yn cael ei dewis yn frenhines. Roedd Enid ei hun yn yr osgordd a daeth a llun i ddangos i ni lle roedd yn edrych yn dlws ryfeddol mewn ffrog laes brydferth. Wedi bod yn y "Land Army" yn Norfolk am dair blynedd aeth i weithio i gwmni Cymraeg David Jones. Roedd y diweddar John Davies (gynt o Stanley Road) yn gweithio yno hefyd. Cyfarfu Enid â'i diweddar briod, yr annwyl Mr Evan Jones a ddaeth yn un o organyddion Bethel, yn Aelwyd Anfield. Priodasant a mynd i fyw i Campbell Drive. Ganwyd dau blentyn iddynt sef Helen a Richard. Mae Enid yn hoff iawn o gathod. Bu'n dysgu Dawnsio Gwerin i eraill o dan ddylanwad Eirian Roberts (Bootle) ac wedi canu ar hyd ei hoes. Dysgwyd hi i ganu gan Ben Davies a oedd yn godwr canu yng Nghapel Oakfield. Bu Enid yn aelod o Undeb Gorawl Cymraeg Lerwl yn amser Dr. Caleb Jarvis ac mae wedi canu ar lwyfan y Genedlaethol fwy nac unwaith. Mae hefyd yn aelod o'r Orsedd. Mae wedi cynorthwyo gyda chanu ym Methel ar hyd y blynyddoedd, a rhoddi blynyddoedd i waith yr Ysgol Sul.

Clywsom i Ann Roberts gael ei geni yn nhref Caernarfon, ond daeth i Score Lane, i fyw pan oedd yn bedair oed. Aeth i'r Ysgol i Broad Green ac aethai'r teulu i Gapel yr Annibynwyr Cymraeg yn Grove Street. Roedd yn rhaid trafeilio ar y tram i fynd i'r capel, ond yn anffodus byddai Ann yn mynd yn sâl ar y tram! Ymhellach ymlaen aeth y teulu bach ar anogaeth y Parch Llewellyn Evans i Gapel Edge Lane, yna aeth Ann adeg y Rhyfel fel faciwi i Efail Newydd. Penderfynodd fynd yn athrawes a chafodd hyfforddiant yng Ngholeg Padgate yn Warrington a mynd i Gapel Cymraeg Crosfield lle roeddynt yn hynod o garedig wrth y myfyrwyr ac yn rhoi te iddynt bob Sul. Dechreuodd Ann ar ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Roscoe Ballantyne. Symudodd i Brae Street, yna i Pleasant Street yng nghanol y dref, lle roedd plant o bob iaith. Bu'n dysgu hefyd yn Westminster Road ac yna am gyfnod da yn Ysgol Northway lle roedd Owen Owens o Gapel Cymraeg Garston yn Brifathro ac yn ddiweddarach, Gwilym M. Jones y llenor. Yn ei blwyddyn olaf penodwyd Ann yn Brifathrawes ond roedd wedi mwynhau y blynyddoedd cynt yn fwy o lawer gan nad yw Prifathro neu Brifathrwes yn gweld llawer ar y plant gan fod cymaint o waith trefnu i'w wneud. Mae Ann yn hoff iawn o arddio. Clywsom am grwban bach a fu ganddi. Mae wedi adrodd llawer iawn ar y Glannau. Cafodd ei hyfforddi gan wraig o Sir Fôn oedd yn byw yn Rose Lane. Mae wedi adrodd mewn Eisteddfodau a Chyngherddau ar hyd y blynyddoedd, ac wedi anfon aml i gyfraniad i'r Wasg Gymraeg. Mae llawer wedi cael mwynhad wrth wrando ar Ann yn adrodd cerddi Abiah Roderick ar eraill ac ar Enid yn canu a chawsom ni fwynhad mawr yn gwrando ar y ddwy yn ateb y cwestiynau diddorol ac yn dweud hanes eu bywydau cyfoethog. Mae'n diolch yn fawr i'r ddwy ac i'r Holwr, Dr. D. Ben Rees. Braf oedd cael gweld y Ganolfan yn llawn, a chroesawu y myfyriwr ifanc Dafydd Huw Wrenal o Llanddoget yn ôl am flwyddyn arall.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Croeso yn ôl i dymor arall o Gymdeithas Cymry Lerpwl. Gobeithio y cawn dymor llwyddiannus.

Agorwyd y tymor gyda noson yng nghartref Mrs. Nan Hughes Parry. Roedd yna ddigon o fwyd a digon o amser i sgwrsio. Diolch Nan am baratoi ar ein cyfer unwaith eto.

Y nos Fawrth ganlynol braf oedd cael croesawu y Barnwr Eifion Roberts yn ôl atom am yr ail dro mewn blwyddyn. Teitl ei ddarlith oedd 'O ddinas distryw i wlad goleuni'. Roedd brawd y Barnwr sef yr Arglwydd Wyn Roberts yn adnabod Iarll Ferrers ac roedd hwnnw yn un o gyn dadau yr Iarll a gyhuddwyd o lofruddiaeth a'i ddedfrydu i farwolaeth yn 1760. Fe ysgogwyd y Barnwr i ymchwilio i mewn i'r achos yma. Yn 1745 bu i Laurence Shirley etifeddu teitl y Pedwerydd Iarll Ferrers oddiwrth ei ewythr a oedd yn wallgof. Yr oedd yn byw heb fod yn bell o Gaerlŷr. Yn 1752 priododd â Mary Meredith o Sir Gaer. Bu'n greulon iawn i Mary a'i charcharu yn y plasdy am amser maith. Wedi achos llys dyfarnwyd fod Mary i gael rhenti holl ffermydd y stâd. Gŵr o'r enw Johnson oedd i gasglu'r rhenti ac ef gafodd ei lofruddio gan y pedwerydd Iarll. Yn nhŷ'r Arglwyddi ceiswyd profi ei fod yn wallgof ond fe'i cafwyd yn euog o lofruddiaeth a'i gondemnio i farwolaeth drwy grogi. Tra yn aros am y dienyddiad yn Nhŵr Llundain daeth ei gyfnither Selina Hastings, Iarlles Huntingdon i'w weld ac i geisio ei achub ei enaid cyn iddo adael y byd yma.



*Selina Hastings, Iarlles Huntington*

Fe aeth y Barnwr ymlaen i amlinellu bywyd a gwaith y cymeriad unigryw yma sef Iarlles Huntingdon oedd yn gyfaill i



***Roderick Owen, y llywydd a'r Barnwr Eifion Roberts a'i gyfaill y Parchedig D. Ben Rees yn doethinebu ar ddiwedd y ddarlith odidog***

Howell Harris a George Whitfield. Fe'i ganwyd yn 1707 i'r ail Iarll Ferrers. Priododd Theophilus Huntingdon, Iarll Huntingdon, pan yn 17 oed a byw yn Donnington Park. Cyn iddi cyrraedd 28 oed yr oedd wedi rhoi genedigaeth i saith o blant a bu 5 farw. Yr oedd yn weddw yn 39 blwydd oed. Roedd yn Fethodist ac yn ymhel â Diwygiad 1760 gyda George Whitfield a John a Charles Wesley. Yr oedd yn awyddus i gymeryd y Diwygiad i'r byd. Adeiladodd gapeli a noddi myfyrwyr o agwedd Efengylaidd o Rydychen. Sefydlodd ei choleg ei hun yn Nhrefeca a agorwyd yn Awst 1768. Daeth George Whitfield o'r America i draddodi y bregeth gyntaf. Sefydlodd ei henwad ei hun a enwyd yn 'Countess of Huntingdon Connexion' sydd yn dal mewn bodolaeth. Bu farw yn 1791 yn 84 oed. Dioddefodd lawer o wawd a dirmyg yn ei bywyd oherwydd ei daliadau crefyddol. Darlith diddorol iawn ac 'roedd yn amlwg fod y Barnwr Eifion Roberts wedi mwynhau chwilio am hanes yr Iarlles Huntingdon a'r Diwygiad Methodistaidd. Cafodd y Barnwr ei gyflwyno gan Lywydd y y Gymdeithas, Roderick Owen ac ef a ddiolchodd am draddodi graenus a darlith oedd yn cadw ein diddordeb.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ar nos Lun 22 Medi dyma ni ym Mhenbedw yn cychwyn tymor newydd yn ein hanes. Rydym mewn bodolaeth ers pum deg pedwar blwyddyn bellach, a hyfryd oedd gweld y festri yn llawn ar y noson gyntaf.

Wrth ein croesawu, cyfeiriodd llywydd eleni, Mrs Eirwen Sargent at ffyddlondeb a chefnogeth yr aelodaeth sy'n argoeli'n dda am dymor llwyddiannus. Hyfryd oedd croesawu pedwar aelod newydd – diolch i bawb am ledaenu'r Gymdeithas i Gymry Cilgwri. Pleser arbennig oedd llongyfarch Mr. Merfyn Williams ar ei dderbyniad i'r Orsedd eleni, y chweched o'n Cymdeithas i'w anrhydeddu gan ein cenedl. Llongyfarchiadau hefyd i Glenys a John Wilkinson ar ddathlu eu priodas aur, ac i Lynn a Dafydd Ross ar eu priodas rhuddem. Dymunwn yn dda i Mrs Anne Jones a Mrs Gwyneth Ellis sy'n wynebu llawdriniaeth yn fuan, ac i eraill sydd heb fod yn dda dros yr haf. Collwyd presenoldeb Mrs Marged Jones sydd wedi cartrefu yn Rhuthun.

Ar noson gartrefol anffurfiol, "Pawb a'i Stori" oedd pennawd y noson. Cawsom ddisgrifiad gan Merfyn am ei brofiadau wrth gael ei dderbyn i'r orsedd – seremoni digon difrifol ond gyda ysbeidiau ysgafn yng nghefn y llwyfan. Wedi tri deg pedwar o flynyddoedd o wasanaeth i'r Eisteddfod, mae Merfyn yn llawn heddu'r anrhydedd. Yr ail storïwr oedd Trefor Roberts gyda'i atgofion am gymeriadau cwmni Cammell Lairds yn y dyddiau prysuraf. Mae dawn storiol Trefor yn rhoi pleser bob amser, ac nae ganddo lu o atgofion hwyliog dro ar ôl tro. Yn absenoldeb Mr. Bob Jones gan Eirwen oedd y trydydd stori. Aethom gyda hi am dro drwy ddyffryn afon Alyn yn Sir Fflint i ymweld â bwthyn ei hen-nain, mam geni ei thad. Clywsom ychydig o hanes yr ardal gyda'r eglwys hynafol yn Llanferres, a'r tŷ tafarn enwog yn Loggerheads, lle bu cyn-daid Eirwen yn berchennog arno yn 1845.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Iola Edwards gan gyfleu mwynhad pawb am noson hyfryd ym mhob ystyr.

## Gair bach o Fanceinion

Mis Awst, mis y gwyliau. Fodd bynnag buom yn cynnal gwasanaeth bob Sul naill ai yn Noddfa Oaker Avenue neu yn Willow Tree Road. Mae'r oedfaon unedig yn gyfle da inni ddod ynghyd a rhannu sgwrs yn ystod y gwyliau. Cafwyd oedfa unedig ddwy-ieithog yng nghapel y Vine, Hale, efo'r Methodistiaid Saesneg ym mis Medi. Roedd hyn oherwydd awydd y Saeson i gadw'r cysylltiad efo'r Cymry yn fyw ar ôl iddynt rannu'r capel bach am 18 mis tra roedd eu capel newydd yn cael ei adeiladu. Y tro hwn roedd yn bleser inni gyfarfod yn eu capel newydd ac ail-gynnau ein cyfeillgarwch.

Ar Ddydd Iau Medi 25 aeth dwy o'n haelodau i'r Encil flynyddol yn y Bala a hynny ar ddiwrnod bendigedig. Y Barch Eleri Edwards oedd yn arwain a Mrs Lois Murphy yn cynrychioli'r capeli Cymraeg. Cafwyd diwrnod hynod o hapus a bendithiol a chynrychiolaeth o bob Henaduriaeth yn y Gogledd.

Mae'n dda i weld Mrs Gwyneth Clement yn ôl yn y capel ar ôl misoedd o driniaeth yn Christie's. Anfonwn ein cofion at Mrs Winifred Jones, a Mrs Edith Evans sydd mewn ysbyty yn Bury, y ddwy yn ddi-hwyl ar hyn o bryd. Hefyd Eflyn ac Elwyn Evans yn dilyn salwch annisgwyl eu mab Alan yn Florida. Cafodd Alan drawiad ar y galon tra'n ymweld ag Orlando gyda'i deulu. Mae'n gweddïau yn sicr gyda'r teuluoedd i gyd.

***Annwyl Olygydd,***

Rwy'n paratoi llyfryn bach 'Telynegion Taid Tregarth' gyda detholiad o waith fy nhaid, Y Parch Humphrey Jones Davies, a gobeithiwn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd yn barod at y Nadolig. Mae yna amrywiaeth o gerddi yn adlewyrchu ei oes a'i fywyd a'i grefydd. Roeddwn yn hoff iawn o Taid! Mrs Marged Jones Penbedw ddaru fy argyhoeddi i wneud y gwaith i baratoi'r cyfrol - a hithau sydd wedi gwneud cyflwyniad imi. Os oes unrhyw un yn awyddus am wybodaeth neu am gopi, cysylltwch â mi: cyfeiriad ebost: c.e.edwards.t21@btinternet.com neu 41 Bradfield Road, Stretford, Manchester M329LA.

*Eleri Edwards*

# *BENDITH YN Y BALA*

***gan Morfudd Williams***

Cynhaliwyd Encil Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd ar ddydd Iau, 25 Medi. Daeth 33 o chwiorydd o bob rhan o'r gogledd yn cynrychioli pob Henaduriaeth i Goleg Y Bala. Ar ôl paned a chroeso y Parch Eirlys Gruffydd, Cilcain arweiniodd ni yn y defosiwn. Y thema oedd "Nesau at Dduw sydd dda i mi", ac fe aeth hynny a fi yn ôl i'm plentyndod pan oeddwn yn mynd bob dydd Sul i'r Ysgol Sul yng nghapel Bedyddwyr yng Nghefnmeiriadog (sydd wedi cau ers blynyddoedd), lle byddwn yn canu am holl egni yr emyn 'Mae Duw yn llond pob lle' a hefyd 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw' bron pob dydd Sul!

O dan arweiniad y Parch Eleri Edwards, ein llywydd, cyfeiriodd at adrannau yn y Beibl oedd yn sôn am Dduw yn nesau atom. Wedi i ni sgwenu i lawr y gwahanol adrannau o'r ysgrythyrau, awgrymodd i ni ddarllen y Gair. Yr oeddem mewn grwpiau bach yn trafod yr ysgrythyrau. Derbyniwyd bendith o'r trafodaethau hyn.

Yna cawsom seibant am ginio a sgwrs gyda'n gilydd, cynheiliaid y gwahanol gymunedau.

Yn y pnawn soniodd Eirian Roberts, Y Parc am ei gwaith fel trefnydd tystiolaeth y chwiorydd.

Cawsom fwy o amser i fyfyrio a dweud gair o brofiad, ac yna cyn troi am adref, cynhaliwyd gwasanaeth y Cymun sanctaidd yng Nghapel y Coleg. Teimlwn yn bersonol ein bod wedi derbyn bendith yn y Bala. Braf oedd cyd-adrodd y Weddi Apsotolaidd cyn troi yn ôl i Gilgwri.

Rhifyn Tachwedd_Tud 1 Mehefin.qxd 07/10/2014 14:46 Page 8

***Adolygiad ar Gyfrol Bwysig***
***D. Ben Rees***

# COFIANT JIM GRIFFITHS – *Arwr Glew y Werin*

(Talybont 2014), tudalennau 351.
Pris £14.95 (clawr meddal); £24-95 (clawr caled)

Mae cyhoeddi'r gyfrol bwysig hon yn llenwi bwlch amlwg yn hanes diweddar Cymru. Yn ystod ei bererindod hir o lofa'r Betws ger Rhydaman ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i goridorau Parc Cathays fel Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru rhwng 1964 ac 1966, chwaraeodd Jim Griffiths ran allweddol ym mywyd Cymru.

Mab yr efail yn y Betws oedd Jim Griffiths ac y mae penodau cynnar y gyfrol hon yn cyflwyno darlun llawn o'r cyd-destun cymdeithasol ym maes y glo carreg yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr oedd y Betws a thref gyfagos Rhydaman yn gymunedau cymharol newydd, a Chymraeg eu hiaith, a ddatblygodd fel canlyniad i dwf y diwydiant glo carreg o'r 1880au ymlaen. Dyma'r cymunedau olaf yn y de diwydiannol i ddatblygu ar raddfa fawr, a hyd yn oed yn eu hanterth yr oedd cyswllt agos yn parhau rhwng y cymunedau diwydiannol hyn a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Drwy wneud defnydd helaeth o archif Jim Griffiths yn y Llyfrgell Genedlaethol llwyddodd yr awdur i gyflwyno portread llawnach o'r blynyddoedd cynnar hynny nag a ymddangosodd yn ei hunangofiant Saesneg, *Pages from Memory* yn 1969.

Â'r awdur Dr D. Ben Rees ymlaen wedyn i olrhain taith Griffiths o Rydaman i San Steffan, gan gynnwys ymdriniaeth ddiddorol ar ei brofiadau fel heddychwr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, fel asiant i'r Blaid Lafur yn Llanelli ac i'r glowyr ym maes y glo carreg, a'i ethol yn aelod seneddol dros Lanelli ym 1936. Rhoddir sylw llawn hefyd i'w gyfnod ar frig y Blaid Lafur fel aelod o lywodraeth Clement Attlee a dirprwy arweinydd ei blaid ar ddiwedd y pumdegau.

Mae'n siŵr mai prif ddiddordeb llawer o ddarllenwyr y gyfrol hon fydd olrhain perthynas gymhleth Jim Griffiths a'r broses o sicrhau elfen o hunanlywodraeth i Gymru. Yn ystod blynyddoedd y rhyfel gwnaeth Griffiths sawl araith y gellid ei dehongli fel datganiad cryf o blaid elfen o ddatganoli. Cyfeirir at nifer o'r areithiau hyn yn y gyfrol hon ac fel y dengys cyfrol ddiweddar Alun Lloyd ar hanes Eisteddfod Genedlaethol Llandybie yn 1944, gwnaeth Griffiths ddatganiadau tebyg adeg ymweliad y brifwyl a'i fro enedigol. Bu peth beirniadaeth ohono yn y pumdegau am ei fethiant i gefnogi'r Ymgyrch Senedd i Gymru y bu aelodau seneddol Llafur megis Goronwy Roberts ac S.O. Davies yn chwarae rhan flaenllaw ynddi. Ac yntau yn dal swyddi uchel yn y Blaid Lafur, a bellach wedi symud ei gartref o Borth Tywyn i Lundain, gellir dadlau iddo lacio'r cysylltiad â'i wreiddiau yn y cyfnod hwn.

Ym mhenodau olaf y llyfr ceir ymdriniaeth o gyfnod Jim Griffiths yn y Swyddfa Gymreig a dadleua'r awdur iddo chwarae rhan allweddol yn hanes datganoli yng Nghymru. Anodd anghytuno â'r dadansoddiad yma.

Fel y dywed Gwilym Prys Davies yn ei ragair, cofiant disgybl edmygus i'w athro yw'r gyfrol hon. Ond, yn allweddol, nid yw'r awdur yn osgoi cwestiynau anodd, a neilltuir pennod gyfan i hanes ffrae rhwng Griffiths a'i asiant Douglas Hughes a oedd yn deillio'n rhannol o'i absenoldebau hir o'r etholaeth yn Llanelli. Mae'r cloriannu yn y bennod olaf un hefyd yn codi cwestiynau pwysig a all fod yn ffrwyth ymchwil pellach yn y dyfodol.

Pan baratowyd rhaglen deledu yn 2000 ar Jim Griffiths gan y diweddar Emyr Price, y teitl a roddwyd iddi oedd *Y Gwleidydd Coll*. Mae ein dyled yn fawr i'r awdur am fynd ati i lenwi'r bwlch ac unioni'r cam ag un o wleidyddion pwysicaf y Gymru ddiweddar.

*Dr Ioan Matthews,*
*Prif Weithredwr Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

## CYFARCHION NADOLIG

– Gwahoddiad –

Penderfynodd Pwyllgor Gwaith *Yr Angor* i gael peth lliw yn rhifyn y Nadolig, a hefyd gwahodd pobl i anfon cyfarchion yr Ŵyl trwy gyfrwng *Yr Angor* am y pris o £3 y cyfarchiad.

Gall y rhai sydd ddim yn bwriadu anfon cardiau Nadolig ddefnyddio Tudalen y Cyfarchion ac yn wir fe all y rhai sydd am anfon Cardiau Nadolig ond yn teimlo yn awyddus i gyfarch cylch ehangach trwy gyfrwng ein papur bro gan fod gennym gefnogwyr ar hyd a lled Cymru ac yn ninasoedd Lloegr (e.e. Birmingham, Llundain ac ati.).

***Anfoner y cyfarchion i'r Golygydd , 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW er byn 1 Tachwedd 2014 trwy'r we neu trwy'r post neu dros y ffôn (0151 724 1989).***

Byddai'n dda cael o leiaf dwsin ohonoch, a mwy i ymateb.
'Melys moes mwy'.
Anfoner siec am £3 i *Pwyllgor Yr Angor* neu arian sych.

*John G. Williams (Cadeirydd)*
*Roderick Owen (Trysorydd),*
*Ben Hughes (Ysgrifennydd),*
*D. Ben Rees (Golygydd)*

*Coffâd am*


# Mr John Robert Tudwal Davies, Rhuthun

**(1922 – 2014)**

**Dydd Gwener, 12fed Medi 2014 aeth deg o Gymry'r Glannau i angladd Mr John R. T. Davies yng nghapel y Tabernacl, Rhuthun. Roedd yr arwyl yng ngofal ei weinidog y Parchedig Morris Pugh Morris a cymerwyd rhannau gan y Parchedigion John Owen, Rhuthun, David Williams, Lerpwl a minnau. Aethom i gyd oherwydd ein edmygedd a'n cysylltiad a'r teulu arbennig oedd a'i gwreiddiau yng Nghapel enwog Stanley Road, Bootle. Er iddynt symud i Rhuthun yn 1981 daliasant eu cysylltiad agos a ni hyd y diwedd. Mae ymadawiad John fel pe bai yn ddiwedd cyfnod arbennig iawn yn hanes teuluoedd Cymraeg oedd wedi eu geni a'i magu ar y Glannau ac yn mabwysiadu'r diwylliant Gristionogol Gymraeg.**

**Ganwyd John yn Nolwyddelan ar 17fed Mawrth 1922 – ei fam wedi teithio yno o'i cartref yn Wallasey yn unswydd iddo gael ei eni'n Gymro! Hoffai son am fwrlwm y bywyd Gymraeg yn nyddiau ei ieuenctid - yn gymdeithasol a Christionogol. Y capeli a'r 'Mission halls' yn niferus a chryfion ac yn ganolfanau i'r bywyd Cymraeg. Yr Aelwydydd; 'Young Wales'; Eisteddfodau ac amryw o gymdeithasau eraill yn denu'r hen a'r ifainc ac yn dal y gymdeithas mewn cysylltiad clos. Ymddengys mai yn y cyfarfodydd yna y cyfarfu a'i wraig annwyl, y diweddar Gwyneth (Ephraim) a fu farw yn 2004.**

**Wedi'r briodas daeth John i fyw at y teulu am fod Gwyneth yn gofalu am ei mam a gollodd ei golwg yn y bomio a ddinistriodd eu cartref a hefyd capel hardd Stanley Road adeg yr Ail Ryfel Byd. Roeddynt yn deulu amlwg iawn yng ngweithgareddau'r capel a'r**





*Gwyneth a John Davies*

**bywyd cymdeithasol Cymraeg. John yn arwain mewn llawer o ffyrdd a Gwyneth yn ddiwyd yn y cefndir ac yn un o'r arweinyddion yn adran y merched. Coleddent newydd ddyfodiaid i'r ardal a hwy oedd ym mysg y rhai cyntaf i'n croesawu ni pan ddaethom o Gaernarfon yn 1966. Cofiaf yn dda i dri llongwr daro i fewn i gapel Stanley Road ar fore Sul heb fod ganddynt air o Gymraeg na Saesneg ac i John a Gwyneth eu croesawu a mynd a nhw adref am ginio. Roeddynt yn Gristionogion gweithredol.**

**Ganwyd iddynt dri o blant, Glyn, Gareth a Beryl, yn berlau yn ôl patrwm gofalus y teulu ac yn dod a bodlonrwydd llwyr iddynt. Ond daeth ergydion llym pan fu farw Glyn a Gareth yn ddynion ifanc ac ar gefn hynny gwraig Gareth gan adael tri o fechgyn yn amddifad. Digon i blygu unrhyw un ond daeth y teulu i'r adwy a gyda chefnogaeth John a Gwyneth mabwysiadwyd y bechgyn gan eu modryb Beryl a Ken Knowles ei gŵr.**

**Roedd John a Gwyneth yn aelodau gweithgar yn Rhuthun ac yng Nghapel y Tabernacl ac wedi toddi'n hawdd i'r gymuned er pob amser yn dweud mae 'Cymry Lerpwl' oeddynt. John yn Evertonian brwd – testun o bryfocio diniwed – a chofiaf amdano yn sefyll gyda y diweddar Hughie Williams ar y terraces yn Goodison Park. Aethom i ddathliad pen blwydd John yn naw deg oed yn ddiarwybod iddo ac ymuno gydag ef a chriw o gyfeillion o gwmpas y bwrdd yng nghaffi J. M. Jones ac yna yn ei gartref lle roedd Beryl wedi trefnu gwledd ar ein cyfer. Roedd y cyfeillion, yn cynwys y Parchedig John Owen, yn cyfarfod yn y caffi braidd yn ddyddiol i ddal penrheswm doeth. Cyfansoddodd John Owen ddau englyn ar gyfer yr achlysur – un yn ei wawdio fel Evertonian ar llall yn anrhydeddu John y gŵr arbennig ac yn dweud cyfrolau:**

***EDMYGEDD***

***Gŵr gŵyl yw a gŵr o galon, - gŵr ffein,***
***Gŵr â ffydd dan bob ton;***
***Hael ŵr a thawel wron,***
***Er y llid sy'n arwr llon.***

**Byddwn fel cymuned y Glannau a Rhuthun yn colli John a'r amryw gysylltiadau oedd rhyngom. Yng Nghapel Stanley Road cawsom ein hethol a'n hordeinio'n flaenoriaid yn 1973. Aethom i'r cyfarfod ym Mangor pan wobrwyd John gyda'r Fedal Gee a'r 18 Fai 2004 ychydig ddiwrnodau cyn marwolaeth Gwyneth. Roeddym yn gyd-aelodau o nifer o gymdeithasau ac yn llenwi nifer o swyddi yn y ddinas. Dyn y bobol a'r teulu oedd John ac holi am hynt a helynt pawb heb sôn am ei brofiadau ei hun. Daliodd ei ffydd ac mae yn amlwg fod ei ffydd wedi ei gynnal drwy ei holl anhawsterau.**

**Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf a Beryl a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.**

***John P. Lyons***

## DIOLCH

**Y diweddar John Davies,**
**Maes Cantaba, Rhuthun**

Ar ôl colli Tad, Tad yng nghyfraith a Thaid mor annwyl, dymuna Beryl, Ken a'r teulu oll ddiolch o galon i'r Parchedig Morris Pugh Morris am ei arweiniad arbennig, ac am y datganiadau teimladwy yn y gwasanaeth gan y Parch David Williams a John Lyons o Lerpwl, a'r Parch John Owen, Rhuthun. Diolch hefyd i bawb oedd gyda ni neu yn meddwl amdanom ar ddiwrnod yr angladd. Mae cysylltiad Lerpwl yn ddwfn ac yn serchog, ac mae gennym atgofion hapus iawn o'n bywyd yna. Diolch hefyd am y rhoddion caredig tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Gwerthfawrogwn y cyfan yn fawr iawn.

# OEDFA GOFIADWY IAWN

## gan un o'r gynulleidfa

Cawsom Oedfa arbennig iawn ym Methel ar fore Sul 21 Medi 2014, sef Oedfa i gofio'r gŵr mawr Thomas Charles o'r Bala (1755-1814) a'i gyfraniad gwerthfawr i Gymru a Lerpwl ar ddau ganmlwyddiant ei farwolaeth. Trefnwyd yr Oedfa oedd yn cynnwys pamffled gwerth eu cael gan y Parchg. Athro D. Ben Rees. Unodd tair Eglwys Gymraeg Glannau Mersi yn yr Oedfa werthfawr hon. Roedd yn bleser cael croesawu ein cyfeillion o Fethania, Waterloo ac o Seion, Penbedw, Daeth cynulleidfa dda ynghyd a chymerwyd rhan gan arweinwyr y tair eglwys ac hefyd gan Gantorion Bethel.

Llywydd y cyfarfod oedd Mr. John G. Williams a'r organydd oedd Mrs Margaret Anwyl Williams. Traddodwyd y neges yn gryno gan y Parchg. Ddr. D .Ben Rees. Dechreuwyd trwy groeso a gweddi gan y Llywydd. Pwysleisiodd Dr. John G. Williams y ffaith mai nid yn unig cofio Thomas Charles fel rhan o hanes y gorffennol yr oeddym ond hefyd gobeithio cael ein symbylu ganddo i weithio dros Eglwys Crist yn y presennol a'r dyfodol.

Lediwyd emynau, rhai o eiddo Thomas Charles ei hun, eraill gan ei frawd, David Charles, gan Mrs Elin Bryn Boyd, Mr. Roderick Owen, Mrs Mair Roberts, Mr. Ben Hughes a Miss Mair Powell. Cafwyd Myfyrdod ar deulu Thomas Charles gan Mr. Roderick Owen a darlleniadau o'r Ysgrythur gan Miss Iris Hughes-Jones a Mrs Nan Hughes Parry. Offrymwyd gweddi gan Dr. D. Ben Rees a chan Dr. Pat Williams.



*Y pryd bwyd syfrdanol a gawsom, digon o ddewis i bawb*



*Rhai o Gantorion Bethel yn y moliant*



*Dwy o'r ffyddloniaid, Ann Roberts ac Olwen Jones, 'etifeddion' Thomas Charles*

Canwyd 'Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd' gyda geiriau C. G. Cairns wedi eu trosi i'r Gymraeg gan E. Cefni Jones (1871-1972) a'r dôn o waith Franz Schubert (1797-1828) gan Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Yn yr ail gyfraniad canwyd geiriau y Parchg. D. E. Williams (1901-1997), "Cofiwn am y dewr arloeswyr" ar dôn ardderchog John Hughes (1896-1968), Arwelfa. Cawsom gyflwyniad gwych am fywyd a gwaith Thomas Charles gan Dr. D. Ben Rees. Clywsom iddo fod yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen, yna priodi Sali Jones o'r Bala, mynd yno i fyw a dod yn Fethodist cryf. Credai fod angen addysg ar Gymru ac y gellid gwneud hynny trwy gael Ysgolion Sul. Sefydlodd yr Ysgol Sul a daeth hynny â Diwygiad mewn sawl rhan o Gymru. Roedd eisiau i bawb gael Beibl – "Beibl i bawb o bobl y byd". Gwyddom hanes Mary Jones yn cerdded milltiroedd i gael Beibl gan Thomas Charles. Clywsom lawer o ffeithiau diddorol am ei fywyd a'i waith yng Nghymru a Lerpwl.

Ar ddiwedd yr oedfa roedd lluniaeth i bawb yn y Ganolfan. Roedd yn dda cael cymdeithasu â'n cyfeillion, Wrth dalu diolchiadau ar diwedd yr Oedfa gofiadwy hon dywedodd Dr. John G. Williams, "Braf ydyw cael uno tair eglwys ar lwybr addoli." Talwyd diolch am y cinio gan Mr. Roderick Owen. Roedd yn dda cael cofio un o Gymry enwocaf ein crefydd a chael diolch am ei fywyd a'i waith yn lle'r Gymanfa Ganu draddodiadol.

Rhifyn Tachwedd_Tud 1 Mehefin.qxd 07/10/2014 14:46 Page 11

*Ymateb mewn byr eiriau*

# PARCHG. RHYS OGWEN JONES, PONCIAU

**1. Yma mha le y ganwyd chwi?** – Llanarmon Dyffryn Ceiriog.

**2. Ydy'r fro honno yn dal i gefnogi capel a eglwys fel ag y dylai heddiw?** – Eglwys Undebol bellach yn y pentref. Nifer yn lleihau ond deil y gweddill ffyddlon.

**3. Pwy oedd y person neu'r personau a wnaeth argraff fawr arnoch yn eich plentyndod (o 5 i 11 mlwydd oed)?** – Athrawon ysgol elfennol a blaenoriaid eglwys fy mebyd (Moss) fel Harold Evans oedd yn cadw siop ac yn glên wrth blant.

**4. Oes gyda chwi neges i Ysgolion Sul a Chyfarfodydd Plant y dyddiau hyn?** – Yn bwysig oherwydd i ni yno y cawsom wreiddiau i'n ffydd. Yn gymorth i'n cadw yn Gymry hefyd mewn ardal hollol Saesneg.

**5. Pa adnod y cofiwch yn dda i chwi ddysgu ar eich cof ar ddechrau'r daith?** – Cofio adrodd y Gwynfydau a'u dysgu o un i un a'u defnyddio fel adnodau ar y Sul. Math 5: 3 i 8.

**6. Pa emyn y byddwn yn falch bellach eich bod yn cofio'r geiriau a pham?** – Rhif 321 yn *Caneuon Ffydd* oherwydd y llinell gofiadwy – 'Iesu nad oes terfyn arnat'. Llinell anfarwol..

**7. Pa gyfrol o'r Hen Destament sydd yn peri llawenydd yn eich bywyd personol?** – Y Salmau oherwydd cyfoeth y gwahanol brofiadol personol a geir yno.

**8. Pa gyfrol o'r Testament Newydd sydd yn drysor ichwi o ddydd i ddydd?** – Efengyl Ioan a llythyrau Paul oherwydd dyfnder y profiadau. Angen myfyrio wrth ddarllen Ioan a llythyr Rhufeiniaid.



**9. Pa Gymro neu Gymraes o fewn Ymneilltuaeth y byddwch yn hoffi treulio awr yn eu cwmni a pham?** – M. Wynn Thomas – Athro Saesneg Abertawe, sef tad cantores enwog hefyd. Athro Saesneg (Cyfrol ar R. S. Thomas). Darlithydd diddorol ar hanes Cymru a diwylliant Cymraeg. Bydd angen mwy nag awr yn ei gwmni. Gwybodaeth eang inni ganddo o'r berthynas rhwng llenyddiaeth a dylanwad ar lên Cymru.

**10. Beth yw neges sylfaenol (mewn deuddeg gair) yr Eglwys Gristnogol?** – "Religion must evolve or die" (Joseph Campbell yn "The Power of Myth". Mae i ni ein gorffennol a da yw rhoi sylw i'n hetifeddiaeth. Ond y sialens bellach ydy dangos parodrwydd i ddatblygu hyn a gafwyd a gyfer ein hoes ni.

**11. Pa ddihareb Gymraeg neu Saesneg sy'n crynhoi eich athroniaeth sylfaenol fel Cristion?** – Cais ddoethineb … cais ddeall … ceir hi a bydd yn dy amddiffyn. neu 'Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer a gwell yw parch nag arian ac aur.

**12. Beth sy'n pery gofid i chwi yn y gymdeithas seciwlar heddiw?** – Cilio oddi wrth y ffydd. Gwelir ffynhonnau moesoldeb yn sychu a llawer o ddirywiad ymhlith pobl rydym wedi arfer edrych i fyny arnynt a'u parchu!

**13. A oes gennych eich hoff adeilad?** – Oes. Abaty a'r Eglwys ar Ynys Iona yn yr Alban.

**14. A fyddech chwi yn falch o weld Undeb rhwng yr Ymneilltuwyr yng Nghymru erbyn 2025?** – Byddwn ond yn gweld y broses fel gwaethaf modd yn un araf. Hawdd digaloni bellach am weld sylweddoli ddelfryd yn f'oes i.

**15. A oes angen Diwygiad Crefyddol fel ag a gafwyd yn 1904 yn y flwyddyn 2014?** – Oes ond bydd yn wahanol i ddiwygiad 1904. Ei ddylanwad gobeithio yn fwy parhaol.

**16. Pa arwyddair bachog sydd yn eich plesio fwyaf fel Cristion o argyhoeddiad?** – Ehed amser erys dyn (Coleg Bangor) neu Amser dyn yw ei gynhysgaeth, a gwae a'i wario yn ofer (Morgan Llwyd)

**17. Rhowch sylw am y gyfrol swpus Caneuon Ffydd?** – Anhylaw i gludo i oedfa! Casgliad gwerthfawr ond anaml y defnyddir geiriau na thonau o'r emynau mewn capeli ar y Sul.

**18. Oes na le i un papur enwadol Cristnogol yn yr iaith Gymraeg bob wythnos?** – Oes yn sicr. Angen hyn ar fyrder.

**19. A ydych fel crediniwr yn bleidiol bellach i ryfel gyfiawn?** – Na fel heddychwr siawns nad oes modd osgoi unrhyw ryfel. Rhaid edmygu rhai sy'n gwneud safiad ac weithiau yn dioddef.

**20. Beth yn y byd hwn yn 2014 sydd yn rhoddi boddhad llwyr i chwi?** – Gweld arwyddion mewn ambell i le brwdfrydedd dros y Deyrnas yn arbennig ymhlith y tô sy'n codi. Chwarae ychydig o golff yn achlysurol, daw hynny â llawer o foddhad.

Myfyrdod

# SUL Y COFIO 2014

Unwaith eto dyma ni wedi cyrraedd fis y Cofio. Mae'n adeg arbennig eleni gan fod yn gan mlynedd ers Rhyfel Byd 1 ac yn 75 ers rhyfel Byd 2.

*Amser fel ffrwd lifeiriol glau /Ddwg heibio'i blant o hyd.*

Atgofir heddiw eto yr holl golledion o fywyd ein hanwyliaid. Beth fedrem ddweud? Mor bell ag wyf fi yn y cwestiwn fedrwn ddweud yn ddigon onest nad ydynt wedi mynd i ffwrdd yn angof. Dim peryg yn y byd oherwydd maent yn cerdded gyda ni bob dydd. Dydw i ddim yn gweld Wncl Jac ond yn sicr na'i glywed ond fe wn ei fod wastad yn agos. Mae'r cariad ynof o hyd tuag ato ac rydw i'n temlo'r golled ond mae'r cariad melys dim llai. Mae'r cariad yn byw gyda fi hyd dragwyddoldeb, yn wastad yn fy nghalon ac mewn coffadwriaeth di-angof.

Mae llawer wedi condemnio'n hallt bod holl hanes wedi cael ei ail ddangos – yr holl erchylltra – yn fwy manwl enwedig i'r plant ei gweld. Dydw i ddim am ddadlau a nhw ond dweud hyn. Ewch i Lyfr Josua a darllenwch beth ddywedodd yr arweinydd wrth y bobol pan ddaeth i'r Iorddonen. Fe ofynnodd iddynt godi cofgolofn o ddeuddeg carreg i gynrychioli y deuddeg llwyth Israel a meddai: "Pan ofyno y plant wrthych – Beth mae y cerrig hyn yn eu harwyddocau i chwi – dywedwch wrthynt coffadwriaeth i meibion Israel am eu brwydro a'u hymladd ers yr Aifft a'u rhyddhad."

Y cwestiwn heddiw a mwy i'r ifanc ydynt yn dymuno rhyfel arall fe geir rhai yn dweud

*I'r ifanc a gar rhyfel / Poen a ddwg yn ei awch*

Onid yw yn bryd sefyll yn erbyn ac yn gadarn crafangau pwerau cribddall y byd sydd ohoni sy'n ein llywodraethu ac yn dweud eu bod yn dda arnom? O na fuasem yn agor ein llygaid a gweld ein bod fel pobloedd yn nwylo RHYWUN mwy a myn Ef ei ddatguddio Ei hun drwy ein calonnau.

Fel ai amser yn ei flaen bydd y bobol a brofodd y ddau Ryfel Byd wedi mynd yn llai ac yn llai ac un diwrnod bydd dim llygad dyst. Efallai hefyd erbyn hynny bydd Dyn wedi dysgu byw yn heddychlon. Brysied y dydd ond tan hynny ein gorchwyl ni ydy cadw mewn cof yr aberth a wnaed drosom gan ein hynafiaid a'n cyfoeswyr, ond yn fwy na dim cofio'n dyner tu hwnt yr aberth a wnaed drosom gan yr Arglwydd Iesu Grist ar Galfaria i goncro pechod a'r tywyllwch. Daeth goleuni yr Atgyfodiad a sicrwydd bywyd tragwyddol yn ei sgil.

**ELWYN**

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2014 ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Rhagfyr 2014/Ionawr 2015 –** erbyn bore Sul, 2 Tachwedd – y lluniau, adroddiadau, llythyron etc.


**ii) Rhifyn Chwefror 2015** – erbyn bore Gwener, 2 Ionawr i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

**iii) Rhifyn Mawrth 2015 –** erbyn bore Llun, 2 Chwefror neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

*Cyfrol Hardd ar gyfer Eisteddfod Llanelli*
*Clamp o gyfrol ar y ffordd.*

**Cofiant Jim Griffiths**
**Arwr Glew y Werin**
**gan D. Ben Rees**




Cyhoeddwyd gan y Lolfa,
Talybont, Ceredigion.
Gweler gwefan
www.ylolfa.com

Rhif y llyfr Clawr Meddal
978-1847719010
Pris: £14.95
Clawr Caled 978 9 84771.
Pris: £24.95

Tudalennau - 350

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

**PEARSON COLLINSON**

***TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL***

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514